



## Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol



## Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol: Cynllun gwaith 2022 i 2023

---

## Rhagair y Prif Weithredwr

Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (y Fforwm) yn dwyn ynghyd y prif reoleiddwyr yn y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau digidol:

- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA),
- yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA),
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), a'r
- Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom).

Gyda'n gilydd, gallwn ysgogi mwy o gydweithio rheoleidiol a darparu dulliau gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r Fforwm ddiwedd y llynedd fel ei Brif Weithredwr cyntaf.

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun gwaith a blaenoriaethau allweddol y Fforwm yn 2022 i 2023. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'n heriau digidol mwyaf gyda'i gilydd: o sicrhau diogelwch a phreifatrwydd plant ar-lein i hyrwyddo marchnadoedd hysbysebu teg a chystadleuol ar-lein. Bydd y Fforwm hefyd yn cefnogi gwaith i hybu arferion gorau ar draws y rheoleiddwyr. Byddwn yn edrych ar sut mae galluogi arloesi cyfrifol yn y diwydiant a meithrin arbenigedd mewn sganio'r gorwel. Mae hyn yn golygu y gall rheoleiddwyr ddeall a rhagweld yn well pa ddatblygiadau technolegol newydd sy'n dod i'r amlwg, a gall y diwydiant gael mwy o sicrwydd ynghylch yr amgylchedd rheoleiddio ar gyfer eu syniadau newydd.

Mae eleni'n foment hollbwysig o safbwynt dull y DU o reoleiddio technolegau a gwasanaethau digidol. Mae rheoleiddwyr yn paratoi i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd a diwygiedig ar draws y gofod digidol. Mae'r cyfrifoldebau newydd hyn – yn unigol ac ar y cyd – yn newid enfawr yn nhirwedd ddigidol y DU. Maen nhw'n gosod y sylfeini ar gyfer economi ddigidol yn y DU sy'n hybu twf ac arloesi, sy'n gwarchod pobl rhag yr amrywiaeth cynyddol o niwed ar-lein a phryderon ynghylch diogelu data ac sy'n hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd. Bydd llwyddiant i'r Fforwm yn golygu, o ganlyniad i gydweithio, y bydd pob rheoleidiwr yn dod yn fwy effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau digidol.

Mae nodau'r Fforwm yn driphlyg:

- hyrwyddo mwy o gysondeb, fel bod y Fforwm yn helpu i ddatrys tensiynau posibl pan fydd trefniadau rheoleiddio'n plethu â'i gilydd, gan gynnig eglurder i bobl ac i'r diwydiant;
- cydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin a mynd i'r afael â phroblemau cymhleth ar y cyd; a
- gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r galluoedd angenrheidiol, gan ddysgu o'r hyn y mae pob rheoleidiwr yn ei wneud ac ymdrechu i fod y gorau yn y byd, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol y Fforwm ar gyfer 2021/22 ochr yn ochr â'r cynllun gwaith hwn. Mae'n edrych ar gynnydd y Fforwm yn ei flwyddyn gyntaf. Rhoddodd amrywiaeth eang o randdeiliaid adborth gwerthfawr i'r fforwm, gan gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â diwydiant, cymdeithas sifil a'r byd academiaidd. Rydym hefyd wedi ymgysylltu drwy ymchwiliad diweddar Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi ar Reoleiddio Digidol<sup>1</sup> ac ymatebion i ymgynghoriad yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei Chynllun Rheoleiddio Digidol<sup>2</sup>. Rydym yn croesawu'r mewnbwn

---

<sup>1</sup> Tŷ'r Arglwyddi, [Digital Regulation: Joined up and accountable](#), Rhagfyr 2021

<sup>2</sup> Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Plan for digital regulation: Summary of responses to the 'call for views'](#), Mawrth 2022

hwn ac rydym wedi cynnwys cynlluniau yma i ymgysylltu'n agosach ag ystod eang o randdeiliaid allanol dros y 12 mis nesaf.

Mae cryn dasg o'n blaenau. Ond, drwy gydweithio fel rheoleiddwyr ac mewn cydweithrediad agos ag eraill, rydym yn bwriadu i'r Fforwm wneud cyfraniad pwysig at dirwedd ddigidol y DU er budd pobl a busnesau ar-lein. Rydym yn croesawu eich adborth.

- **Gill Whitehead (Prif Weithredwr y Fforwm)**

# 1. Cyflwyniad

## Mae'r Fforwm yn dod â rheoleiddwyr y DU at ei gilydd i gyflwyno dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein.

- 1.1 Fe wnaethom ffurfio'r Fforwm oherwydd bod rheoleiddio effeithlon a chydgyssylltiedig yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth y mae gwasanaethau a thechnolegau digidol yn eu hachosi.
- 1.2 Mae rheoleiddio digidol yn faes sy'n esblygu'n gyflym. Mae natur arloesol model y Fforwm yn golygu bod cyfle sylweddol gan y DU i arwain y ffordd o ran darparu rheoleiddio digidol wedi'i gydlyn. Mae gwledydd eraill fel yr Iseldiroedd<sup>3</sup> ac Awstralia<sup>4</sup> bellach yn mabwysiadu'r model hwn, ac mae ein gwaith yn helpu i roi gwybod i lunwyr polisi sut beth yw dull cydgyssylltiedig o reoleiddio digidol yn ymarferol.
- 1.3 Gyda'n gilydd, mae gennym gyfrifoldeb enfawr – nawr ac yn y dyfodol – dros reoleiddio digidol yn y DU. Rydym yn nodi ein cylchoedd gwaith unigol yn y maes hwn isod:

Rheoleiddiwr	Prif gyfrifoldebau mewn perthynas â gwasanaethau digidol <sup>5</sup>
<b>Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd</b>	Yn gyfrifol am hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr, mae gan y CMA bwerau i orfodi cyfraith cystadleuaeth a defnyddwyr, cynnal astudiaethau o'r farchnad ac asesu achosion o uno. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd wedi cael y dasg gan y Llywodraeth o oruchwylio trefn newydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol, drwy ei Uned Marchnadoedd Digidol newydd, sydd wedi'i sefydlu ar ffurf gysgodol ar hyn o bryd.
<b>Ofcom</b>	Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, mae Ofcom yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau cyfathrebu – o ddarpariaeth telathrebu a'r rhyngwyd i wasanaethau cynnwys. Fel rhan o hyn, mae Ofcom yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos fel TikTok a Snap, a nododd y Bil Diogelwch Ar-lein a gyhoeddwyd yn ddiweddar mai Ofcom fyddai rheoleiddiwr y gyfundrefn Diogelwch Ar-lein newydd. Mae gan Ofcom hefyd gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer seiberddiogelwch a chadernid rhwydweithiau cyfathrebu'r DU.
<b>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth</b>	Yn gyfrifol am gynnal hawliau a rhyddid pobl pan fydd sefydliadau'n prosesu eu data personol, gan gynnwys diogelu plant ar-lein drwy'r Cod Dylunio Priodol i Oedran (Cod y Plant). Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer seiberddiogelwch systemau digidol a gwybodaeth y DU.
<b>Awdurdod Ymddygiad Ariannol</b>	Yn gyfrifol am reoleiddio diwydiant gwasanaethau ariannol y DU, gan gynnwys marchnadoedd digidol. Mae ganddynt dri amcan gweithredol: <ul style="list-style-type: none"><li>• diogelu defnyddwyr;</li><li>• hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr;</li><li>• diogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU.</li></ul>

- 1.4 Bydd y rolau pwysig hyn yn golygu bod pob rheoleiddiwr sy'n aelodau'n ymgysylltu â rhai o'r heriau mwyaf y mae gwasanaethau digidol yn eu hachosi – heriau sy'n sicr o fynd yn fwy dybryd (gweler


<sup>3</sup> Awdurdod Diogelu Data'r Iseldiroedd, [Dutch regulators strengthen oversight of digital activities by intensifying cooperation](#), Hydref 2021.

<sup>4</sup> Comisiwn cystadleuaeth a defnyddwyr Awstralia, [Agencies form Digital Platform Regulators Forum](#), Mawrth 2022.

<sup>5</sup> Nid yw'n fwriad i'r crynodeb hwn gwmpasu cylch gwaith cynhwysfawr llawn y rheoleiddwyr, dim ond y rheini sy'n ymwneud yn fwyaf penodol â gwaith y Fforwm.

Ffigur 1). Oherwydd cyfrifoldebau aelodau'r Fforwm yn awr ac yn y dyfodol rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol o ran sut i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gwneud hynny nid yn unig o fudd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digidol yn y DU, ond mae hefyd yn helpu i feithrin arloesedd drwy gefnogi twf gwasanaethau digidol cyfrifol.

Ffigur 1: Enghreifftiau o niwed y mae gwasanaethau digidol yn eu hachosi<sup>6</sup>



- 1.5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mi wnaeth llawer o randdeiliaid atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio rhwng rheoleiddwyr i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Phwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi wedi tynnu sylw at rôl bwysig y Fforwm. Yn yr ymatebion i Gynllun Rheoleiddio Digidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, roedd consensws eang ynghylch yr angen i reoleiddwyr y DU fod yn effeithiol, yn gydlynol ac wedi'u cydgysylltu.<sup>7</sup> Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod gan y Fforwm 'rôl hanfodol i'w chwarae' a phwysleisiwyd mewn perthynas â rheoleiddio digidol y bydd 'rhannu arbenigedd, datblygu galluoedd cyffredin, sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf yn y ffordd mae rheoleiddwyr yn gweithredu, a lleihau beichiau diangen ar fusnesau yn hollbwysig.'<sup>8</sup>
- 1.6 Yn eu hadroddiad, cydnabu Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi'r Fforwm fel cam i'r cyfeiriad iawn ac ail-bwysleisio'r angen am ddull rheoleiddio sy'n 'ystwyth, yn syml ac yn osgoi dyblygu'. Roeddent yn argymhell bod y Fforwm yn gwneud mwy 'i hwyluso cydlynw a chydweithredu-rhwng rheoleiddwyr a thu hwnt iddynt.'

<sup>6</sup> Ofcom, [Pilot Online Harms Survey](#), gwaith maes yn y cyfnod Tachwedd 2020 i Chwefror 2021; ICO, [Annual Track](#), 2021; Mi wnaeth yr FCA ganfod, yn ei [Consumer investments data review](#) Ebrill, Medi 2021, bod ymholiadau sgam yn dal yn gyson uchel rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021. Cafodd yr FCA dros 16,400 o ymholiadau am sgamiau posibl yn ystod y cyfnod, cynnydd o tua un rhan o dair yn yr ymholiadau yn ystod yr un cyfnod yn 2020 (12,400); ac amcangyfrifodd y CMA, yn ei [Online Platforms and Digital Advertising Market Study](#), niwed i ddefnyddwyr o tua £2.4bn yn 2018 o ganlyniad i elw gormodol.

<sup>7</sup> Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Plan for digital regulation: Summary of responses to the 'call for views'](#), Mawrth 2022

<sup>8</sup> Yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Letter from DCMS Secretary of State to the Digital Regulation Cooperation Forum](#), Mawrth 2022

## Drwy gydweithio drwy'r Fforwm, rydym yn hyrwyddo cydlyniad, cydweithio a meithrin gallu – gan flaenoriaethu cydlynu mewn meysydd a fydd yn gwella ein heffeithiolrwydd

1.7 Nodau cyffredinol y Fforwm yw hyrwyddo:

1. **Cysondeb rhwng cyfundrefnau** – o ystyried y rhyngweithio a'r tensiynau posibl rhwng y trefnau rheoleiddio, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i ddarparu eglurder a chysondeb i bobl a busnesau.
2. **Cydweithio ar brosiectau** – mae manteision sylweddol i ni ddod at ein gilydd i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Gallwn sicrhau eglurder i fusnesau drwy ganllawiau ar y cyd lle bo hynny'n briodol.
3. **Meithrin gallu ar draws rheoleiddwyr** – drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn fynd ati'n fwy effeithlon i ddatblygu a chadw'r sgiliau, yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r gallu sefydliadol cywir i gyflwyno rheoleiddio digidol effeithiol ar gyfer pobl a busnesau.

1.8 Llwyddiant y Fforwm yw gwella effeithiolrwydd pob rheoleiddiwr unigol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau digidol. Mae ein gwaith ar gysondeb, cydweithio a gallu hefyd yn ein galluogi i weithredu'n fwy effeithlon, ac rydym yn sbarduno arfer gorau drwy ddysgu oddi wrth ein gilydd. Bydd hyn o fudd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digidol drwy reoleiddio'n fwy effeithiol. Mae o fudd i'r diwydiant drwy roi mwy o eglurder ynghylch sut mae cydymffurfio â gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio.

1.9 Mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion, o ystyried yr ystod eang o ddatblygiadau technolegol a'r materion polisi cysylltiedig a allai godi yn eu sgil. Bob blwyddyn, byddwn felly'n blaenoriaethu dull gweithredu cydgysylltiedig ar faterion lle mae gennym bryderon dybryd a lle rydym yn gweld yr effaith bosibl fwyaf i bobl a busnesau.

1.10 Isod, rydym yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, o ystyried natur y maes sy'n newid yn gyflym, bod angen i ni aros yn hyblyg ac addasu i ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

### Cysondeb

1.11 Ein prif flaenoriaethau fydd:

1. **Diogelu plant ar-lein:** Drwy'r Fforwm, rydym am i'n hymdrechion gael eu cysoni – gan ganolbwyntio'n benodol ar wella canlyniadau i blant a rhieni – drwy sicrhau bod mesurau diogelwch ar-lein a phreifatrwydd yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys fframwaith gweithio ar y cyd i gefnogi'r gwaith o oruchwylio fframwaith rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom a threfn Cod Dylunio Priodol i Oedran yr ICO, yn ogystal ag ymchwil ar y cyd ar sicrwydd oedran.
2. **Hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebion ar-lein:** Drwy'r Fforwm rydym eisiau meithrin marchnadoedd hysbysebu cystadleuol ar-lein sy'n darparu arloesedd a thwff economaidd, gan barchu hawliau diogelu defnyddwyr a data. Mae hyn yn cynnwys y CMA a'r ICO yn cydweithio i adolygu: Cynigion datblygol Google i ddileu cwcis trydydd parti yn raddol; a nodweddion Atal Tracio Deallus a Thryloywder Tracio Apiau Apple.

1.12 Rydym hefyd yn gwneud rhagor o waith i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws ein trefnau. Mae hyn yn cynnwys:

- mapio rhyngweithio rhwng cyfundrefnau rheoleiddio perthnasol;

- cyhoeddi datganiad ar y cyd ar sut rydym yn bwriadu gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â meysydd rhyngweithio rhwng y cyfundrefnau preifatrwydd a diogelwch ar-lein;
- datblygu darlun clir o'r berthynas rhwng cystadleuaeth a pholisi diogelwch ar-lein;
- parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o amgryptio o'r dechrau i'r diwedd; a
- adeiladu ar ymgysylltiad rhwng Ofcom a'r FCA ar dwyll a sgamiau ar-lein.

## Cydweithio

1.13 Ein prif flaenoriaethau yn y maes hwn yw:

1. **Cefnogi gwelliannau mewn tryloywder algorithmig:** Fel rheoleiddwyr gwasanaethau digidol, rydym eisiau cefnogi'r defnydd o brosesu algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo ei fanteision ac yn lliniaru risgiau i bobl ac i gystadleuaeth. Mae tryloywder yn allweddol i hyn. Mae'r ffrwd waith hon yn edrych ar ffyrdd o wella tryloywder ac archwilio algorithmig.<sup>9</sup> Ein nod yw: gwella ein galluoedd ar gyfer archwilio algorithmig; ymchwilio i'r farchnad ar gyfer archwilio trydydd parti; a hyrwyddo tryloywder ym maes caffael algorithmig.
2. **Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio:** Rydym am annog arloesi cyfrifol yn y farchnad. Gallwn wneud hyn drwy helpu busnesau i ddarparu'r mesurau diogelu rydym yn eu disgwyl a galluogi unigolion i ymddiried mewn technolegau newydd. Bydd y ffrwd waith hon yn edrych ar wahanol fodelau ar gyfer y ffordd rydym yn cydlynu ein gwaith gyda'r diwydiant er mwyn cefnogi arloesedd.

## Galluoedd

1.14 Ein prif flaenoriaethau yn y maes hwn yw:

1. **Rhannu gwybodaeth yn well drwy rwydweithiau arbenigol:** Mae hyn yn golygu cefnogi cysylltiadau rhwng arbenigwyr yn ein sefydliadau i sbarduno cydweithio parhaus ar feysydd polisi a rennir. Rydym yn gobeithio creu polisi mwy gwybodus, sy'n cael mwy o effaith. Er enghraifft, rydym yn creu rhwydwaith i gydgyssylltu'r defnydd o dechnolegau rheoleiddio (RegTech) a thechnolegau goruchwylio (SupTech).
2. **Adeiladu ar synergeddau a llenwi bylchau yn ein gweithgarwch sganio'r gorwel:** Mae hyn yn adeiladu ar raglenni sganio'r gorwel parhaus ar draws y rheoleiddwyr. Nod y sganio hwn yw datblygu gwybodaeth am feysydd arloesi cyflym ac ymuno i ymgysylltu drwy ddigwyddiadau allanol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ganfod a llenwi bylchau a chynnig gwybodaeth gyhoeddus, ar y cyd am dechnolegau newydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau technolegol yn well ar gyfer cynlluniau gwaith y Fforwm yn y dyfodol.
3. **Recruiwio a chadw talent arbenigol ar draws y pedwar rheoleiddiwr:** Er gwaethaf ein rolau rheoleiddio gwahanol, mae angen sgiliau ac arbenigedd cyffredin arnom. Mae'r ffrwd waith hon yn cefnogi'r rheoleiddwyr i ddenu, magu a chadw'r sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau digidol, nawr ac yn y dyfodol.

1.15 Yn ogystal â'r ffrydiau gwaith penodol hyn, rydym yn cynllunio rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu allanol a fydd yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn gwybod y gallwn ddysgu oddi wrth nifer sylweddol o randdeiliaid sydd ag arbenigedd mewn materion digidol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddwyr eraill, diwydiant, y byd academiaidd, partneriaid rhyngwladol a grwpiau cymdeithas sifil. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â phob un o'r grwpiau hyn eleni drwy gyfarfodydd briffio,

<sup>9</sup> Mae archwilio algorithmig yn cyfeirio at amryw o ddulliau i asesu systemau o'r fath. Gall fod ar sawl ffurf wahanol, o wirio dogfennau llywodraethu, i brofi allbynnau algorithm, i archwilio ei weithrediad mewnol

digwyddiadau a chyfarfodydd dwyochrog. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at ein syniadau diweddaraf a rhoi gwybod iddynt am ein blaenoriaethau. Rydym yn annog ein holl randdeiliaid i gyfrannu at ein cynllun gwaith.



---

## 2. Cynllun gwaith y Fforwm 2022-23

- 2.1 Isod, rydym yn nodi ein cynllun gwaith llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn nodi ein cynlluniau yn erbyn ein nodau cyffredinol: cydlyniant, cydweithio a galluedd. Rydym hefyd yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cryfhau'r ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y gwaith hwn.

### Cysondeb

- 2.2 Drwy'r Fforwm, rydym yn galluogi pob un o'n cyfundrefnau i gydweithio'n ymarferol. Rydym yn canfod bylchau ac yn edrych am ffyrdd o gymhwyso rheoleiddio ar draws gwahanol cyfundrefnau mewn ffordd gyson. Rydym hefyd yn trafod meysydd tensiwn posibl rhwng ein cyfundrefnau, gan weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i'r ffordd orau o gyflawni ein hamcanion, darparu eglurder i fusnesau a gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digidol
- 2.3 Mae amrywiaeth o wahanol fathau o ryngweithio ar draws ein cyfundrefnau presennol a rhai'r dyfodol. Eleni, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar:
- diogelu plant ar-lein;
  - hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebu ar-lein; ac
  - rydym hefyd yn gwneud rhagor o waith i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws ein cyfundrefnau.

### Diogelu plant ar-lein

- 2.4 Mae helpu plant i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn ddiogel yn rhan allweddol o'n gwaith. Rydym yn gofyn fwyfwy i'r gwasanaethau mae plant yn eu defnyddio i ddarparu mesurau diogelu cadarn i warchod eu preifatrwydd a'u cadw'n ddiogel ar-lein. Ar yr un pryd, dylai rhieni a phlant deimlo eu bod yn cael eu grymuso i sicrhau bod y profiadau mae plant yn eu cael ar-lein yn fuddiol ac yn ddiogel.
- 2.5 Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ddyletswyddau penodol ar gyfer diogelu plant ar-lein. Mae'n hollbwysig sicrhau rheoleiddio cyson i sicrhau bod mesurau diogelu preifatrwydd a diogelwch ar-lein yn gweithio gyda'i gilydd dros blant a rhieni.
- 2.6 Mae cyfrifoldebau'r ICO ar gyfer diogelu hawliau data ar-lein plant yn cynnwys goruchwyllo'r Cod Plant, sy'n cael ei adnabod yn ffurfiol fel y God Dylunio Priodol i Oedran (AADC). Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio VSPs yn y DU, sy'n gorfod rhoi mesurau ar waith i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol. Mae Ofcom yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol dros sicrhau bod ystod ehangach o wasanaethau ar-lein yn cymryd mesurau priodol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol. Drwy'r Fforwm, rydym am gydamseru ein hymdrechion i roi gwell profiadau i blant a rhieni.
- 2.7 Eleni, rydym yn gwneud y canlynol:
- cydweithredu'n well i oruchwyllo gwasanaethau o dan drefniadau'r VSP a'r AADC drwy gwblhau fframwaith gweithio ar y cyd a chynnal gweithdai senario i brofi'r fframwaith;
  - cyhoeddi ymchwil ar y cyd ar agweddau rhieni a phlant tuag at sicrwydd oedran ar draws gwahanol gyd-destunau ar-lein; a
  - cydweithio ar ddatblygu canllawiau a safonau ar sicrhau oedran.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebu ar-lein

- 2.8 Mae gan hysbysebu ar-lein ran bwysig yn y gwaith o ddarparu cynnwys a gwasanaethau hynod werthfawr i ddefnyddwyr, fel hysbysebion i ariannu gwasanaethau chwilio ar y rhyngwyd a gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Fel arfer, nid yw defnyddwyr yn talu'n uniongyrchol am y gwasanaethau hyn. Yn hytrach, mae llwyfannau a chyhoeddwyr yn eu hariannu drwy roi gwerth ariannol i sylw a data defnyddwyr drwy werthu hysbysebion ar-lein wedi'u targedu. Yn ei dro, o'r sefydliad mwyaf i'r caffii lleol, mae hysbysebu digidol yn ddull effeithiol iawn o ddarparu hysbysebion i ddefnyddwyr, gan helpu i hybu ymwybyddiaeth o frand a gwerthiant.
- 2.9 Fodd bynnag, gall y technolegau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hysbysebion ar-lein wedi'u targedu greu risgiau sylweddol i breifatrwydd a hawliau diogelu data defnyddwyr. Gall y defnydd o broffilio a chyfoethogi data personol mewn hysbysebion ar-lein fod yn aneglur, yn anghymesur ac mewn rhai amgylchiadau, yn annheg i ddefnyddwyr. Yn rhy aml, nid oes gan sefydliadau ganiatâd ystyrlon i brosesu data personol pobl. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn aml yn golygu nad oes gan ddefnyddwyr ddewis a rheolaeth ystyrlon ynghylch a yw sefydliadau'n eu tracio ac yn eu proffilio. Hefyd, mae marchnadoedd hysbysebu ar-lein yn cael eu dominyddu gan nifer fach o gwmnïau technoleg mawr sydd mewn sefyllfaoedd pwerus. Gall hyn lesteirio cystadleuaeth o fewn ac ar draws y marchnadoedd hyn, ac mae hefyd yn lleihau'r dewis i ddefnyddwyr.
- 2.10 Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar y farchnad, gan weithredu i wella'r ffordd mae marchnadoedd digidol yn gweithio ar ran defnyddwyr a busnesau. Mae defnyddio a rheoli data personol yn chwarae rhan bwysig yn y marchnadoedd hyn. Mae'r ICO yn ceisio gwella cydymffurfiad â'r gyfraith diogelu data heddiw yn ogystal â siapio dyfodol hysbysebion ar-lein, yn y DU ac ar y llwyfan byd-eang. Drwy'r Fforwm, mae'r CMA a'r ICO yn parhau i grynhoi eu harbenigedd ar y cyd. Mae hyn yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am ymyriadau yn y farchnad yn yr ecosystem hysbysebu ar-lein.
- 2.11 Eleni, byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn:
- monitro effeithiolrwydd yr ymrwymadau a wnaeth Google ynghylch ei gynigion Blwch Tywod Preifatrwydd; a
  - sicrhau cydweithio agos mewn perthynas â Gofyniad tryloywder tracio apiau ac atal olrhain deallus Apple.

## Rhagor o waith i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws ein cyfundrefnau

- 2.12 Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau uchod, ein nod yw cryfhau ein gallu i gydweithio lle mae ein cyfrifoldebau rheoleiddio'n rhyngweithio. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cyd-ddealltwriaeth a'n dull gweithredu o ran y rhyngweithio rhwng diogelu data a rheoleiddio cystadleuaeth, gan adeiladu ar ddatganiad ar y cyd y CMA/ICO ym mis Mai 2021.<sup>10</sup>
- 2.13 Rydym hefyd yn edrych ar feysydd ehangach o ryngweithio ynghylch diogelwch y tu hwnt i'r rheini sy'n ymwneud yn benodol â diogelu plant, gan gynnwys rhwng y cyfundrefnau preifatrwydd a diogelwch ar-lein. Byddwn yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r rhain mewn datganiad ar y cyd. Rydym yn datblygu darlun clir o'r berthynas bosibl rhwng cystadleuaeth a pholisi diogelwch ar-lein. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o amgryptio o un pen i'r llall fel sail ar gyfer dull rheoleiddio wedi'i gydgyssylltu.

<sup>10</sup> [CMA-ICO joint statement on competition and data protection law](#), Mai 2021

- 2.14 Gan adeiladu ar y ddeialog agos dros y flwyddyn ddiwethaf ynghylch twyll a sgamiau ar-lein, bydd yr FCA ac Ofcom yn parhau i gydweithio i helpu i lywio Ofcom wrth iddo ddarparu mesurau diogelu sy'n ymwneud â chynigion ariannol anghyfreithlon o dan y Bil Diogelwch Ar-lein, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â llwyfannau gymaint a bo modd, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ryngweithio ehangach â threfnau'r ICO a'r CMA.
- 2.15 Er mwyn ein galluogi i gynllunio a blaenoriaethu rhagor o waith ar gysondeb yn y dyfodol, rydym yn mapio'r rhyngweithio rhwng set ehangach o gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau digidol. Mae hyn yn ein helpu i feddwl yn eang am y rhyngweithio posibl a allai effeithio ar bobl ac ar fusnesau.

## Cydweithio

- 2.16 Gallwn wella'r ffordd rydym yn gweithio drwy ystyried materion cyffredin sy'n effeithio ar ein nodau polisi unigol. Er enghraifft, rydym i gyd yn ystyried effaith technolegau penodol (fel defnyddio prosesu algorithmig). Mae gan bob un ohonom ddiddordeb personol mewn cefnogi arloesi sydd o fudd i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digidol a'r economi ddigidol.
- 2.17 Er bod angen i bob un ohonom ddelio â materion a gwneud penderfyniadau mewn ffordd bwrpasol er mwyn cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, mae gennym gyfleoedd i gydweithio. Bydd gwneud hyn yn ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon, osgoi dyblygu ymdrechion, datblygu dulliau a rennir a darparu canllawiau ar y cyd i'r diwydiant lle bo hynny'n briodol.
- 2.18 Eleni, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gydgysylltu i:
- gefnogi gwelliannau mewn tryloywder algorithmig; a
  - galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio.

## Cefnogi gwelliannau mewn tryloywder algorithmig

- 2.19 Mae defnyddio algorithmau i brosesu a chasglu data yn sail i lawer o wasanaethau digidol, gan ddarparu ymarferoldeb sy'n effeithio ar fywydau pobl bob dydd. P'un ai a yw hynny'n golygu canfod gweithgarwch twyllodrus, ein cysylltu â'n ffrindiau neu'n dangos y ffordd i ni, mae systemau o'r fath bellach yn rhan ganolog o gymdeithas fodern. Maen nhw'n darparu llawer o fanteision ond, heb oruchwyliaeth briodol, gallant arwain at niwed unigol a chanlyniadau gwrth-gystadleuol.
- 2.20 Fel rheoleiddwyr gwasanaethau digidol, rydym eisiau cefnogi'r defnydd o brosesu algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r manteision ac yn lliniaru'r risgiau i bobl ac i gystadleuaeth. O ganlyniad i'n cynllun gwaith 2021-2022, fe wnaethom gyhoeddi papurau ar y cyd yn nodi manteision a niwed prosesu algorithmig a'r dirwedd bresennol ar gyfer archwilio algorithmig. Eleni, rydym yn datblygu ein dealltwriaeth o sut mae asesu systemau algorithmig yn effeithiol a chefnogi busnesau i'w datblygu a'u defnyddio'n briodol. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y canlynol:
- gwella ein galluoedd ar gyfer archwilio algorithmig. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am wahanol dechnegau archwilio, yn ogystal â deall a phrofi sut mae defnyddio atebion digidol i fonitro systemau prosesu algorithmig a chanfod achosion niwed;
  - ymchwilio i'r farchnad archwilio algorithmig trydydd parti. Rydym yn asesu lle gall rheoleiddwyr chwarae'r rôl fwyaf gwerthfawr yn y ffordd mae'r farchnad newydd hon yn datblygu; ac

- hyrwyddo tryloywder ym maes caffael algorithmig. Rydym yn cefnogi gwerthwyr a chaffaelwyr drwy gyhoeddiad ar arferion gorau, ymddygiad niweidiol, ac eglurder ynghylch rôl pob rheoleiddiwr.

## Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio

- 2.21 Mae arloesi'n rhan bwysig o farchnad gystadleuol sy'n ffynnu. Mae'n dod a manteision enfawr i bobl. Mae'n galluogi cynnyrch a gwasanaethau newydd a gwell, yn cynyddu dewis i ddefnyddwyr ac yn datblygu systemau sy'n gyrru prisiau i lawr ac yn gwella ansawdd gwasanaethau. Mae arloesi hefyd yn helpu i sbarduno'r economi, gan gefnogi gwell cynhyrchiant a thwf economaidd.
- 2.22 Fel rheoleiddwyr, mae gan bob un ohonom gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag arloesi. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau penodol i gefnogi arloesi a buddiannau ehangach wrth gysoni arloesi â'n hamcanion polisi. Drwy gydweithio, gallwn ei gwneud yn haws i arloeswyr ymgysylltu â ni. Mae hyn yn golygu rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr i fusnesau o'u cyfrifoldebau rheoleiddio. Yn ei dro, mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau sy'n cydymffurfio'n gyflym, ac yn fwy hyderus. Yn y pen draw, mae hyn o fudd i bobl drwy sicrhau nad yw rheoleiddio'n rhwystr anghymesur i arloesi. Mae hefyd yn helpu busnesau i ddarparu'r mesurau diogelu rydyn ni'n disgwyl iddynt fod ar waith.
- 2.23 Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd yn y ffordd rydym yn cefnogi arloesi. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn darparu gwasanaethau cymorth cydgysylltiedig ar arloesi, drwy gyngor a heriau technoleg.<sup>11</sup> Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i fusnesau newydd ac arweinwyr y farchnad fel ei gilydd brofi syniadau newydd mewn 'blychau tywod' rheoleiddio<sup>12</sup>, gan gael adborth ar hyd y daith. Mae Ofcom, ynghyd â Digital Catapult, hefyd wedi gweithio gyda'r diwydiant i greu Labordai SONIC.<sup>13</sup> Mae hyn yn galluogi Ofcom i brofi a datblygu ffyrdd newydd o ddefnyddio rhwydweithiau symudol er mwyn cynnwys arloeswyr a thechnolegau newydd. Eleni, byddwn yn cyhoeddi ymchwil ar sut gall rheoleiddwyr y Fforwm ei gwneud yn haws i arloeswyr gyflwyno syniadau, cynnyrch a modelau busnes newydd ar draws cylchoedd gwaith nifer o reoleiddwyr. Rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r casgliadau i edrych ar opsiynau i ni wella'r daith i arloeswyr ar draws ein ffiniau rheoleiddio. Nod hyn yw gwella'r ffordd rydym yn cefnogi ac yn ymgysylltu ar y cyd ag arloeswyr.

---

<sup>11</sup> ICO, [ICO Innovation services](#), 2022

<sup>12</sup> FCA, [FCA Innovation Hub](#), 2022

<sup>13</sup> Digital Catapult, [Digital Catapult launches new high-tech 5G lab to boost network security and resilience](#), Mehefin 2021

## Galluoedd

- 2.24 Mae angen i ni ddiweddarau ac arfogi ein hunain yn barhaus ar gyfer y dasg o reoleiddio digidol. Mae gennym gyfleoedd gwych i gydlynu, archwilio synergeddau a rhannu gwersi. Drwy'r gwaith hwn, gallwn herio a chefnogi ein gilydd i wella ein prosesau, gan anelu at ragoriaeth yn y ffordd rydym yn darparu ar gyfer pobl a busnesau ar-lein.
- 2.25 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd calonogol i gyfuno ein galluoedd drwy:
- gwreiddio cydweithredu ar faterion polisi;
  - cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth; a
  - datblygu barn gyfun ar y sgiliau sydd eu hangen arnom.
- 2.26 Eleni, byddwn yn adeiladu ar fuddsoddiad y flwyddyn gyntaf hon mewn perthnasoedd a seilwaith er mwyn i ni:
- gwella'r ffordd rydym yn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth am faterion polisi a defnyddio technolegau rheoleiddio drwy ddatblygu rhwydweithiau arbenigol;
  - adeiladu ar synergeddau a phontio'r bylchau yn y gwaith sganio'r gorwel rydym i gyd yn ymgymryd ag o; a
  - recriwtio a chadw talent arbenigol ar draws y pedwar rheoleiddiwr ar sail dadansoddiad sgiliau.

### Rhannu gwybodaeth yn well drwy rhwydweithiau arbenigol

- 2.27 Rydyn ni eisiau cysylltu'n well â'n cydweithwyr er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn ddyfnach ar draws timau sy'n gweithio ar faterion tebyg. Ein nod yw gwneud hyn drwy greu rhwydweithiau ffurfiol ar bynciau cyffredin fel:
- technolegau rheoleiddio a goruchwylio;
  - gwasanaethau cwmwl;
  - technolegau hysbysebu;
  - pensaernïaeth dewis; a
  - technolegau gwella preifatrwydd.
- 2.28 Bydd y rhwydweithiau'n caniatáu i gydweithwyr wneud cysylltiadau, rhannu arbenigedd ac archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio mwy ffurfiol. Drwy hyrwyddo'r grwpiau traws-reoleiddiwr hyn, rydym yn gobeithio y byddwn yn galluogi datblygiad polisi mwy gwybodus a chreadigol. Ein nod yw caniatáu i'n harbenigwyr herio ei gilydd, rhannu profiadau a chael gweld safbwyntiau newydd.
- 2.29 Rydyn ni eisiau deall yn well sut gallwn ni ddefnyddio technoleg i reoleiddio'n fwy effeithlon a dysgu o arferion y diwydiant ynghylch sut mae'n cefnogi eu hymdrechion i gydymffurfio. Rydyn ni eisiau adeiladu ar waith yr FCA yn y gofod hwn – a gwaith y CMA, Ofcom a'r ICO – i rannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr a chanfod safbwyntiau newydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal gweithdai, diwrnodau arddangos a sesiynau addysgu gyda rheoleiddwyr eraill yn ogystal ag arbenigwyr a chwmnïau allanol i ehangu ein gwybodaeth am y pwnc.

### Adeiladu ar synergeddau a phontio bylchau yn y gwaith sganio'r gorwel rydym i gyd yn ymgymryd ag o

- 2.30 Mae sganio'r gorwel eisoes yn sylfaenol i bob un o'n dulliau rheoleiddio. Mae'n ein galluogi i ymdopi â newidiadau technolegol a chanfod heriau'r dyfodol. Mae hyn, yn ei dro, yn ein galluogi i feithrin

gwybodaeth ac archwilio atebion ymlaen llaw, gan gyflawni'n gyflymach ac yn fwy effeithiol ar ran pobl a busnesau.

2.31 Gan gydnabod gwerth ein gwaith unigol ar sganio'r gorwel, fe wnaethom ddechrau edrych ar ffyrdd o rannu gwybodaeth a safbwyntiau'n well. Fel y nodir yn ein papur polisi 'Joining up on future technologies' ym mis Tachwedd 2021<sup>14</sup>, mae gennym dair blaenoriaeth gychwynnol:

- casglu a rhannu ymchwil;
- ymgysylltu ar y cyd â busnesau bach a chanolig, busnesau newydd a'r byd academiaidd; a
- cyflymu ein gwaith o feithrin gwybodaeth drwy symposia.

2.32 Ym mis Mawrth 2022 fe wnaethom lansio'r porth ymchwil digidol sy'n cyfuno ein hymchwil ym maes gwasanaethau digidol gyda gwaith rheoleiddwyr eraill.<sup>15</sup> Fe wnaethom gynnal y cyntaf mewn cyfres o ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, busnesau newydd a'r byd academiaidd ar 5 Ebrill 2022 ym Manceinion, gan ganolbwyntio ar seiberddiogelwch a thechnoleg ariannol. Byddwn yn cynnal symposiwm y Fforwm ar dechnoleg trochi a'r byd meta ym mis Mai. Ymhellach i'r dyfodol, rydym yn bwriadu cynnal dau symposiwm arall yn ystod 22-23 ar bynciau gan gynnwys Gwe 3.0. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal rhagor o gyfarfodydd ar y cyd â busnesau bach a chanolig yn ystod y flwyddyn.

### **Recriwtio a chadw talent arbenigol ar draws y pedwar rheoleiddiwr**

2.33 Er mwyn rheoleiddio gwasanaethau digidol yn effeithiol, bydd angen i ni feithrin sgiliau a galluoedd priodol. Er gwaethaf ein rolau rheoleiddio gwahanol, mae angen sgiliau ac arbenigedd cyffredin arnom. Rydym yn cydweithio i ddatblygu ein galluoedd yn fwy effeithlon, yn enwedig wrth i'r rheoleiddwyr unigol ehangu canolfannau newydd yn rhanbarthol. Eleni, byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu sgiliau a galluoedd a rennir drwy:

- datblygu ein strategaeth recriwtio er mwyn cyfleu ein nodau cyffredin yn well a gwella'n prosesau i ddenu a chadw ymgeiswyr;
- ysgogi allgymorth i feithrin diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â pholisi digidol a thechnoleg, yn enwedig ymysg graddedigion ac ymgeiswyr ar ddechrau eu gyrfaedd drwy gyfathrebiadau hyrwyddo a digwyddiadau ar y cyd o dan frand y Fforwm; a
- meithrin sgiliau rheoleiddio digidol drwy ddatblygu cynnyrch dysgu ar gyfer aelodau'r Fforwm a thrwy rannu ein cynlluniau dysgu â'n gilydd.

---

<sup>14</sup> Gov, [Joining up on future technologies](#), Tachwedd 2021

<sup>15</sup> Gov, [Digital Regulation Cooperation Forum digital markets research](#), 2022

## Sut byddwn ni'n gweithio gydag eraill

- 2.34 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol yn hanfodol i waith y Fforwm. Rydym yn gwybod y gallwn ddsygu oddi wrth nifer sylweddol o randdeiliaid sydd ag arbenigedd mewn materion digidol. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddwyr eraill, diwydiant, y byd academiaidd a grwpiau cymdeithas sifil. Drwy wneud hyn, gallwn sbarduno gwaith mwy gwybodus ac effeithiol, a sicrhau bod ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn deall ein blaenoriaethau, a rhoi cyfle iddynt gyfrannu at ein syniadau diweddaraf.
- 2.35 Mae natur arloesol model y Fforwm yn golygu bod cyfle sylweddol gan y DU i arwain y ffordd o ran darparu gwaith rheoleiddio digidol cyson. Ond rydyn ni'n dysgu wrth i ni fynd yn ein blaenau. Felly, mae angen i ni ymgysylltu'n rhyngwladol, yn ogystal â'n ddomestig, er mwyn rhannu ein syniadau a dysgu oddi wrth y gymuned eang o sefydliadau sy'n gweithio ym maes rheoleiddio digidol.
- 2.36 Mae ymgysylltu â'r gymuned reoleiddio ehangach yn hanfodol i lwyddiant y Fforwm. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mi wnaethom ymgysylltu â rheoleiddwyr y tu allan i aelodaeth y Fforwm drwy ein cyfarfod bwrdd crwn chwarterol i rheoleiddwyr, sy'n cynnwys grŵp amrywiol o reoleiddwyr yn y DU sydd â diddordeb mewn materion digidol. Rydyn ni wedi cynnal tri digwyddiad bwrdd crwn i reoleiddwyr ers lansio ym mis Medi 2021. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr y DU i wneud y canlynol:
- canfod synergeddau ac unrhyw orgyffwrdd yn ein gwaith;
  - rhannu gwybodaeth a chanfod safbwyntiau mewn perthynas â thechnolegau rheoleiddio presennol; a
  - deall tueddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy sganio'r gorwel.
- 2.37 Yn fwy cyffredinol, byddwn yn cryfhau ac yn ehangu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid drwy wneud y canlynol:
- nodi cyfleoedd i gydgyssylltu mewn gwaith ymgysylltu â'r diwydiant lle bo hynny'n briodol;
  - meithrin cysylltiadau cryfach â'r byd academiaidd;
  - parhau i ymgysylltu â chymheiriaid rhyngwladol i drafod y gwaith o reoleiddio marchnadoedd digidol a rhannu profiadau o gydweithio ar draws rheoleiddwyr;
  - cwrdd â grwpiau cymdeithas sifil i ganfod meysydd posibl y gallai'r Fforwm ganolbwyntio arnynt a chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith; a
  - parhau i ymgysylltu ar y cyd â'r Llywodraeth a'r Senedd i sicrhau ein bod yn parhau i gydgyssylltu ar faterion rheoleiddio digidol.
- 2.38 Roedd cynllun gwaith cyntaf y Fforwm yn canolbwyntio ar adeiladu'r sylfeini a'r strwythurau cryf sydd eu hangen i hwyluso ein cydweithio effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys comisiynu ymchwil defnyddwyr, ymgysylltu â'r diwydiant, rheoleiddwyr y DU a Llywodraeth y DU. Mae'r cynllun gwaith hwn yn nodi prosiectau blaenoriaeth y Fforwm dros y 12 mis nesaf wrth i ni droi ein golygon at weithredu a chyflawni. O ystyried natur y maes sy'n newid yn gyflym, byddwn yn aros yn hyblyg ac yn addasu i ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein deialog gyda rheoleiddwyr eraill sydd â buddiannau sy'n gorgyffwrdd a'r prosesau mewnol sy'n cefnogi cydweithredu effeithiol. Bydd ymgysylltu ehangach yn nodwedd bwysig o'n gwaith eleni ac rydym yn annog ein holl randdeiliaid allanol i roi eu mewnbwn ar ein cynllun gwaith. Cysylltwch â [DRCF@ofcom.org.uk](mailto:DRCF@ofcom.org.uk) gydag unrhyw sylwadau neu adborth.